



**DARLENWCH**  
Exodus 11: 1-10,  
12: 1-13, 21-42



**ADNOD  
ALLWEDDOL**  
Ioan 1: 29,  
I Corinthiaid 5: 7

## Astudiaeth 4 Moses – Y Gwardwr



### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 105: 36-38 Hebreaid 11: 28 I Pedr 1: 18 a 19

Y pla neu'r gosb hon, yr olaf o'r deg, a ddisgrifiwyd yn y Darlleniad o'r Beibl oedd y gwaethaf a'r mwyaf difrodus ohonynt i gyd o safbwynt yr Eifftiaid. Ond, i'r Israeliaid, a wnaeth bopeth yn union fel y dywedodd Duw wrthyn nhw, roedd yn gyfrwng i'w gwared o'u caethwasiaeth ac yn gychwyn ar eu taith i Wlad yr Addewid. Gall hyn fod yn arwyddocaol iawn i ninnau heddiw, oherwydd bwriadodd Duw i'r digwyddiad hwn fod yn ddarlun o'r hyn y byddai'r Arglwydd Iesu Grist yn ei wneud drosom ni.

**C** Edrychwch ar y ddwy Adnod Allweddol. Sut mae Iesu Grist yn cael ei ddisgrifio yn y naill a'r llall?

Ioan 1: 29

I Corinthiaid 5: 7

**C** Ym mha adnod yn Exodus pennod 12 mae'r DDAU air 'pasg' ac 'aberth' i'w gweld?

Fe welwn, felly, fod yr Arglwydd Iesu Grist yn cael ei ddisgrifio fel yr Oen, ac fel ein Pasg a'n Haberth ni. Yn union fel roedd yn rhaid i oen y Pasg fod heb nam, roedd yr Arglwydd Iesu hefyd yn ddibechod. Lladdwyd yr oen. Cymerwyd ei fywyd a thaeuwyd ei waed ar ddrysau tai pob un o'r Israeliaid. Addawodd Duw warchod pob cartref oedd â'r arwydd hwnnw arno rhag angel barn a marwolaeth. Yn yr un modd, aberthodd Crist ei fywyd ar y groes a thywalltwyd Ei waed. Mae angen i ni gymhwyso hyn i'n bywydau ni drwy ymddiried ynddo Ef drosom ein hunain am ein hiachawdwriaeth. Mae Duw yn addo amddiffyn pob un sydd wedi ymddiried yng Nghrist am ei achubiaeth a'i arbed rhag barn.

**C** Darllenwch I Pedr 1: 18 ac 19 ac ysgrifennwch beth mae Pedr yn ei ddweud yw'r pris a dalwyd i'n prynu neu ein rhyddhau ni.

## RHIFAU

**C** Mae llawer o rifau yn Exodus, pennod 12! Esboniwch sut a ble mae'r rhifau canlynol yn ymddangos yn yr hanes.

2	_____
(adn22)	_____
10	_____
(adn3)	_____
14	_____
(adn6)	_____
600, 000	_____
(adn37)	_____
430	_____
(adn40)	_____

2

1

2

5

# GEIRIAU

**C** Beth yw'r geiriau unigol fydd yn ateb pob un o'r cwestiynau canlynol.

Dywedwyd wrth yr Israeliaid am ofyn i'w cymdogion am fenthyg tlysau wedi eu gwneud o'r ddau

ddeunydd hwn.

1.

2.

Dyma'r ffordd roedd yr Israeliaid i goginio'r oen.

Roedd yr Israeliaid i daenu hwn ar byst a chapau drws y tai.

Ym mhob tŷ yn yr Aifft lle na fyddai hyn wedi ei wneud, byddai'r person hwn neu anifail yn marw.

Cariodd yr Israeliaid eu toes cyn ei lefeinio mewn llestri tyliu (llestri pobi) ar eu

Dechreuodd yr Israeliaid ar eu taith o'r lle hwn. (Adnod 37)

7

**C** Ad-drefnwch yr wyth llythyren sydd wedi eu hamlygu yn y blychau uchod i ffurfio dau air sy'n ymddangos yn y Darlleniad cyntaf o'r Beibl. Beth yw'r gair?

I

**C** Disgrifiwch sut y defnyddir y ddau air yma yn y stori.

  

I

**C** Yn Exodus 12: 28 gwelwn i'r Israeliaid wneud yn union fel y gorchynnodd yr Arglwydd i Moses ac Aaron. Beth wnaethon nhw yn union cyn hyn?

  

I

Cadwyd Israel yn ddiogel, nid yn unig oddi wrth farn Duw drwy'r gwaed a daenwyd ar byst y drysau, ond cawsant eu rhyddhau o fod yn gaethweision i'r Eifftiaid. Os byddwn ni'n ymddiried yn yr Un a fu farw drosom, daw Ef hefyd â ni i ryddid ac i fywyd newydd. Ydych **Chi'n** adnabod yr Arglwydd Iesu fel eich Gwaredwr personol? Ydych **Chi** wedi ymddiried ynddo? Ydych **Chi** wedi derbyn Ei aberth drosoch **Chi**? Ydych **Chi** wedi cael eich achub rhag barn Duw ar Eich pechod ac wedi eich rhyddhau o gaethiwed pechod am byth?

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120